***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1628

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 2

### Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rhan 4**

**7.**—(1) Mae Rhan 4 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 14(2), yn y diffiniad o "deunydd gwaharddedig"—

(a) ym mharagraff (b)—

(i) yn lle "diriogaeth yr Undeb neu i Gymru" rhodder "Brydain Fawr";

(ii) yn lle "o reolau iechyd planhigion yr UE" rhodder "o'r rheolau iechyd planhigion";

(b) ym mharagraff (c)—

(i) hepgorer "o fewn tiriogaeth yr Undeb, neu";

(ii) yn lle "o reolau iechyd planhigion yr UE" rhodder "o'r rheolau iechyd planhigion".

(3) Yn rheoliad 16(4), hepgorer "(gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd)".